CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL

Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhalwyd drwy Zoom
nos Lun, 10 o Ionawr 2022 am **7:00yh**

YN BRESENNOL: Cynghorwyr Heather Williams (Cadeirydd), Ken Hawkins, Robert Owen-Ellis, Ethan Jones and Menna Jones

174. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Cynghorwyr Ifan Wyn ac Ian Lewney.

175. DATGAN BUDDIANNAU
Datganodd y Cyng Ethan Jones fuddiant personol yn eitem 7 (cofnod 179) 'Cais Cynllunio 02/2021/1179 Tir yn (Rhan o ardd) Llys Gwyn Bryn Goodman Rhuthun'

176. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 6 o Ragfyr 2021 yn gywir.
PENDERFYNWYD: *bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 6 o Ragfyr 2021 yn cael eu cadarnhau.*

177. MATERION YN CODI
Dim.

178. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO
Roedd Clerc y Dref wedi dosbarthu penderfyniadau cynllunio diweddar a benderfynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych gyda'r agenda.
PENDERFYNWYD: *nodwyd y penderfyniadau cynllunio diweddar a benderfynwyd gan Gyngor Sir Dinbych.*

179. CEISIADAU CYNLLUNIO
Trafododd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn am ganiatâd cynllunio a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer sylwadau.
PENDERFYNWYD*: bod ymateb y Pwyllgor i'r ceisiadau fel a ganlyn:*

PENDERFYNWYD*: nad oedd gwrthwynebiad i'r cais canlynnol:*
02/2021/1229 Foelas 26 Bryn Rhydd Ruthin
Codi estyniad unllawr i'r cefn a gwaith cysylltiedig
Dim gwrthwynebiad.

PENDERFYNWYD: *bod gwrthwynebiad i'r cais a ganlyn:*
02/2021/1179 Tir yn (Rhan o ardd) Llys Gwyn, Bryn Goodman, Rhuthun
Codi 2 annedd ar wahân a gwaith cysylltiedig
Gwrthwynebiad: *yn seiliedig ar orddatblygiad posib o'r safle, effaith andwyol lefelau traffig ac effaith amgylcheddol ar y bywyd gwyllt lleol.*

180. CYLCHLYTHYR RHAGFYR 2021 CYMORTH CYNLLUNIO CYMRU

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i gynnwys Cylchlythyr Cymorth Cynllunio Rhagfyr 2021 ac ystyriwyd y cyfleoedd hyfforddi a amlinellwyd yn y cylchlythyr. Gofynnodd y Cynghorydd Menna Jones am gael ymgymryd â hyfforddiant Porth Ar-lein Cymorth Cynllunio 'Cynllunio o'r Dechrau i'r Diwedd'.

PENDERFYNWYD: *cytuno ar gais y Cynghorydd Menna Jones i ymgymryd â Hyfforddiant Porthol Ar-lein 'Cynllunio o'r Dechrau i'r Diwedd'. .*

181 AMCANION ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau drafod ac ystyried gwariant y Pwyllgor ym mlwyddyn ariannol 2022/23. Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i ddarparu llinell gyllideb benodol ar wahân ar gyfer 'Cynllun Lle' Rhuthun gyda gwariant priodol i'w benderfynu.

PENDERFYNWYD: *i gynnwys llinell penodol yn y gyllideb ar gyfer 'Cynllun Cynefin' Dyfodol Rhuthun gyda gwariant priodol wedi'i bennu yn ychwanegol at y gwariant y cytunwyd arno o £3,300 ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.*

182. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: mai nos Lun, 7 o Chwefror am 7.00pm y cynhelir y cyfarfod nesaf.*